Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Canolfan Feddygol ISCA
# Dyddiad y gweithgarwch: 03 Mehefin 2021

Dyddiad cyhoeddi: 08 Gorffennaf 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80195-642-0



© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Feddygol ISCA fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae gan Ganolfan Feddygol ISCA feddygfa gangen ym Mhont-hir, Casnewydd hefyd. Mae Canolfan Feddygol ISCA yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r Uwch-bartner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis ar 3 Mehefin 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

1. Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?

2. Pa mor effeithiol y gall y gwasanaeth gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau ar hyn o bryd?

3. Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?

4. Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) gael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel o ran amgylchedd y practis a chael apwyntiadau.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- asesiadau risg;
- ceisiadau am apwyntiadau i gleifion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru er mwyn adlewyrchu gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Gwelsom fod asesiad risg ar gyfer COVID-19 wedi'i gynnal, a oedd yn cynnwys asesiadau amgylcheddol, taith y claf, ac iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r ymwelwyr â'r practis.

Dywedwyd wrthym fod y dderbynfa a'r ardal aros wedi'u hadnewyddu ar ddechrau pandemig COVID-19, er mwyn cynorthwyo a gwella rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

- cafodd y carpedi i gyd eu codi a finyl eu gosod yn eu lle;
- cafodd y cadeiriau eu hail-orchuddio â defnydd y mae modd ei sychu'n lân;
- cafodd y waliau eu hailaddurno gan ddefnyddio paent gwrthficrobaidd arbenigol[1];
- mae eitemau diangen fel papurau newydd a chylchgronau wedi'u symud; a
- chafodd hysbysfwrdd gwydr pwrpasol ei osod.

[1] mae gan **baent gwrthficrobaidd** ychwanegion sy'n gwneud yr arwyneb **wedi'i beintio** yn wydn i ficrobau fel ffwngws, feirysau a bacteria.

Dywedodd Rheolwr y Practis wrthym eu bod yn monitro'r amgylchedd bob dydd.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19. Mae'r cleifion yn derbyn ymgyngoriadau dros y ffôn. Roedd cleifion yr oedd angen iddynt weld clinigydd wyneb yn wyneb, yn mynd i'r practis trwy drefnu apwyntiad ymlaen llaw. Oherwydd y defnydd cynyddol o linell ffôn y practis yn ystod y pandemig, cafodd llinell ffôn ychwanegol ei gosod. Gwelsom hefyd fod gan staff y dderbynfa weithdrefnau clir ar waith i helpu gydag apwyntiadau'r cleifion ac roeddent yn cyfeirio'r cleifion at weithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill lle bo'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael asesiad risg COVID-19 y GIG[2] er mwyn asesu'r risgiau personol o ganlyniad i barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19 ac i dynnu sylw at unrhyw addasiadau angenrheidiol i arferion gweithio.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n preswylio mewn cartrefi gofal ac mae ymweliadau wedi parhau drwy gydol y pandemig. Dywedodd yr Uwch-bartner Meddyg Teulu wrthym fod y meddygon teulu yn dilyn gweithdrefnau'r cartref gofal wrth fynd i mewn.

Canmolodd yr Uwch-bartner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis y staff yn fawr am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- COVID-19: Canllawiau ar gyfer adfer gwasanaethau o fewn lleoliadau iechyd a gofal;

[2]Datblygwyd Adnodd Asesu Risg Gweithlu COVID-19 Cymru Gyfan er mwyn helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19. Nod yr adnodd yw helpu'r staff i ddeall a allent o bosibl wynebu mwy o risg, a'u helpu nhw a'u rheolwr llinell i ddewis y camau gweithredu sy'n addas yn seiliedig ar lefel y risg.

- polisi rheoli heintiau;
- polisi hylendid;
- amserlenni glanhau; a
- data ar hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer staff clinigol.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod polisi cyfredol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae'r polisi wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r broses o reoli COVID-19. Nodwyd bod y tîm yn cael diweddariadau rheolaidd drwy e-bost a thrwy gyfarfodydd tîm er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r canllawiau neu arferion.

Cawsom wybod bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar. Cadarnhaodd Rheolwr y Practis hefyd fod mwy o lanhau yn digwydd a bod defnydd da yn cael ei wneud o gyfarpar diogelu personol (PPE), gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro'n rheolaidd. Sefydlwyd ystafell storio PPE ddynodedig newydd er mwyn sicrhau y gellir cael gafael ar PPE yn brydlon.

Rhoddwyd gwybodaeth inni am hyfforddiant rheoli heintiau a ddangosodd gyfradd gwblhau o 100% ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff anghlinigol yn y practis wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg, a'i waredu'n ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ystafell ddynodedig, ar wahân i'r brif ardal i gleifion, er mwyn ynysu cleifion pe bai angen a bod system un ffordd ar waith.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- cynllun parhad busnes;
- cofnodion cyfarfodydd tîm y staff; a
- gofynion hyfforddi.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Er mai dim ond ers blwyddyn y bu Rheolwr y Practis yn ei rôl, roedd yn glir iawn ac yn wybodus iawn am ei rôl ac roedd gan y Rheolwr ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau. Roedd hi'n amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod y practis wedi ennill 'Gwobr Cyflawniad Meddygfa Curwch Ffliw 2020/21'[3] a ddyfarnwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyflawnodd y practis y wobr trwy waith tîm cydlynus rhwng Rheolwr y Practis, y staff gweinyddol a'r tîm clinigol a arweiniodd at gynnydd yn y cleifion a dderbyniodd frechlyn y ffliw. Gwelwyd cynnydd cyffredinol o 32.5% yn y cleifion â chyflyrau iechyd hirdymor a dderbyniodd frechlyn y ffliw a gwelwyd bod dros 80% o bobl 65 oed neu'n hŷn a phlant dwyflwydd a theirblwydd oed wedi'i dderbyn.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, canmolodd yr Uwch-bartner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis y staff yn fawr am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19. Ymataliodd y staff rhag cymryd gwyliau yn ystod anterth y pandemig gan gymryd sifftiau ychwanegol er mwyn rhoi gofal i gleifion ac i gefnogi ei gilydd.

Dywedwyd wrthym fod disgwyl i un o'r Partneriaid Meddyg Teulu ymddeol yn yr hydref ac mae disgwyl i un meddyg teulu ddechrau ar gyfnod mamolaeth yn ystod yr haf. Dywedwyd wrthym fod trefniadau eisoes wedi'u rhoi ar waith i gyflenwi dros y cyfnod mamolaeth trwy benodi meddyg teulu locwm. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wrthi'n recriwtio meddyg teulu parhaol newydd. Fodd bynnag, os na fydd y practis yn llwyddiannus, dywedwyd wrthym fod trefniadau eisoes wedi'u rhoi ar waith i feddyg teulu locwm gyflenwi'r swydd. Dywedodd yr Uwch Bartner Meddyg Teulu wrthym hefyd eu bod wedi ymroi i gymryd sifftiau ychwanegol wrth i'r broses recriwtio fynd rhagddo. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cysylltu â'r bwrdd iechyd i roi gwybod iddynt am eu hanghenion recriwtio a'r pwysau posibl y bydd hyn yn ei roi ar y practis ac ar les y staff. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd i'r practis y bydd yn cefnogi ac yn cynorthwyo petai'r broses recriwtio yn aflwyddiannus.

Nodwyd bod cyfarfodydd clwstwr rheolaidd[4] wedi cael eu cynnal yn rhithwir trwy Microsoft

[3] https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/curwch-ffliw/newyddion-diweddaraf/

[4] Ystyr **Clwstwr** yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff **Clystyrau** eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG **Cymru**. Mae meddygon teulu yn y **Clystyrau**'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith

Teams.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm misol yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth fod cofnodion manwl yn cael eu cynnal.

Rhoddwyd gwybodaeth inni hefyd am hyfforddiant gorfodol a ddangosodd gyfradd gwblhau o 100% ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

(iechyd) Ardal.